

Llyfr Log Myfyrwyr Sgiliau Arian a Chyllid

Lefel 2 - Uned 11

Uned 11 Defnyddio Arian Dramor

11.1 Cyfraddau cyfnewid

Darllenwch Daflen Ffeithiau Addysg Nationwide - *Exchange Rates* ([FD1](#)) ac ymchwiliwch wahanol gyfraddau cyfnewid ar-lein e.e. [BBC](#).

11.1.1 Gweithgaredd 1

Dychmygwch fod rhywun wedi gofyn i chi wneud cyflwyniad 10 munud i grŵp o fyfyrwyr i'w helpu i gynllunio eu harian ar gyfer ymweliad cyfnewid dramor. Cynlluniwch eich cyflwyniad. Er enghraifft, gallech roi sgwrs gan ddangos ffotograffau neu roi cyflwyniad PowerPoint. Pa ymchwil ychwanegol fydd angen i chi ei wneud?

Penderfynwch pa fath o gyflwyniad fyddai fwyaf effeithiol i helpu'r dosbarth i ddeall y pwnc.

Mae angen i'ch cyflwyniad ddangos:

- o leiaf **bedwar** rheswm pam y gall arian tramor mewn gwledydd godi a gostwng
- manteision ac anfanteision talu mewn gwahanol ffyrdd am **o leiaf dri** nwydd a gwasanaeth dramor
- **o leiaf bedwar** ffordd wahanol o gadw eich arian yn ddiogel wrth deithio dramor.

Awgrymiadau ar gyfer rhoi cyflwyniad da:

- Gwnewch yn siŵr fod y wybodaeth a roddwch yn syml, yn glir ac yn gywir.
- Gwnewch yn siŵr fod y cyflwyniad yn addas i'r gynulleidfa.
- Gwnewch y cyflwyniad yn ddiddorol ac yn fywiog. Allech chi gynnwys hiwmor?
- Cofiwch gynnwys lluniau, darluniau neu graffiau lle mae hynny'n bosibl.
- Cofiwch ymarfer eich cyflwyniad er mwyn i chi allu ei gyflwyno'n hyderus.

! Cofiwch gynnwys eich cyflwyniad gyda'ch Llyfr Log sydd wedi'i gwblhau. Fel arall, gallech ofyn i'ch tiwtor gynnwys datganiad tyst i roi sylwadau ar eich cyflwyniad ar ôl iddo/i ei wyllo.

11.1.2 Gweithgaredd 2

Lluniwch daflen cyllideb i gynllunio'r cyllid sydd ei angen ar gyfer eich taith dramor.

Bydd angen i chi ymchwilio i ganfod y bargeinion gorau i deithio ee cardiau trenau, cyfnewid arian, cardiau credyd/debyd, cardiau wedi eu talu ymlaen llaw.

Mae angen i'ch taflen gyllideb gynnwys cost cyfnewid arian, teithio, llety, bwyd, adloniant, yswiriant, defnyddio ffôn symudol a chostau ychwanegol sy'n berthnasol i'ch taith benodol chi ee eli haul, dillad, brechiadau. Gallwch naill ai greu eich taflen gyllideb eich hun neu olygu'r un isod.

Penawdau	Enghreifftiau o eitemau	Pris (£)
Arian	100 Ewro	£95
	Cerdyn £50 wedi'i dalu ymlaen llaw	
Teithio	Tocynnau trên	

	Bws i'r orsaf drenau	
Llety	Hostel - 3 noson	
Bwyd	3 brechwast	
	3 cinio	
	3 swper	
Adloniant	Cyngerdd	
	Arddangosfa	
Yswiriant		
Defnydd o ffôn symudol		
Costau cyn gadael	Eli haul	
	Dillad	

! Os byddwch yn creu eich taflen gyllideb eich hun, cofiwch ei gynnwys gyda'ch Llyfr Log sydd wedi'i gwblhau.